# Ymchwil Agos at Ymarfer: Beth ydyw, a sut gellid gwella ei ansawdd?

Dominic Wyse a Chris Brown

# Theori-ymarfer: Hanes hir

- *technē* (celfyddyd, crefft neu fedr)
- *phronēsis* (doethineb ymarferol, yn enwedig wrth drefnu'ch bywyd neu drefnu agweddau ar gymdeithas)

(Preus, 2007; Dunne, 1997 ).

# Theori-ymarfer: Hanes hir

“Mae addysgu addysg fel maes diwahaniaeth wedi’i ddisodli i raddau helaeth gan addysgu disgyblaethau cyfansoddol. Mae athroniaeth, seicoleg a chymdeithaseg yn cael eu cynrychioli ym mhob man bron

…

Mae’r newid hwn yn y cwricwlwm wedi cynyddu trylwyrdeb a naws ddeallusol cyrsiau addysg. Nid yw wedi gwneud fawr ddim i’w perthnasedd i’r broblem o wella arfer addysgu.

(Stenhouse, 1975, tud. vii)

# Prosiect Ymchwil Agos-at-Ymarfer BERA

- Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, is-banel addysg: roedd ymchwil ‘yn canolbwyntio ar ymarfer’ neu’n ‘agos at ymarfer’ (CtP) yn amrywiol o ran ansawdd.
- Comisiynwyd ymchwil gan BERA drwy’r grŵp llywio CtP .
- Tîm ymchwil (Dominic Wyse; Chris Brown; Sandy Oliver; Ximena Poblete) a grŵp cynghori.
- Grŵp Llywio BERA – bu’n cyfarfod yn rheolaidd â’r tîm ymchwil


# Prosiect Ymchwil Agos-at-Ymarfer BERA

- 2014 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF): roedd cyfran yr allbynnau ymchwil mewn addysg y barnwyd eu bod yn ‘arwain y byd’ (4*) yn cyfateb yn fras i allbynnau ‘unedau asesu’ eraill o fewn y gwyddorau cymdeithasol.
- Roedd cyfran sylweddol yn fwy o allbynnau graddau is (2*, 1* ac ‘U’) mewn addysg nag mewn unedau asesu gwyddorau cymdeithasol eraill.
- Ymhellach, o’r holl unedau asesu, addysg wnaeth gyfrannu’r gyfran isaf o staff sefydliadau addysg uwch i’r REF (fel y dynodwyd gan ffurflenni HESA).

# Methodoleg astudiaeth agos at ymarfer

1. Asesiad Tystiolaeth Cyflym (REA) o bapurau ymchwil cyhoeddedig a oedd yn canolbwyntio ar ymchwil agos-at-ymarfer er mwyn archwilio **traddodiadau, ffocws ac ansawdd**. Roedd y papurau hyn yn perthyn i ddau brif fath:
   - y rheiny oedd yn canolbwyntio ar fethodoleg yr ymchwil CtP;
   - canfyddiadau o ymchwil a oedd yn agos at ymarfer.
2. Saith cyfweliad gyda phobl a oedd â gwybodaeth a phrofiad perthnasol mewn perthynas ag ymchwil CtP a'i phriodweddau. Nod y cyfweliadau oedd archwilio **dimensiynau ymchwil CtP.**

# REA: Map ac asesiad ansawdd




1. Pa fathau o arferion sydd wedi'u harchwilio yn yr ymchwil CtP?
2. Pa gwestiynau ynglŷn â'r arferion hyn sydd wedi'u harchwilio?
3. Pa fath o honiadau a gynigiwyd, a pha ddeilliannau a gyflawnwyd?
4. Pa offer damcaniaethol a ddefnyddiwyd?

# Cyfweleion

- **Math 1.** Pobl sy’n gweithio ac yn ysgrifennu mewn traddodiad ymchwil CtP ac y mae ganddynt rywbeth i’w ddweud ynglŷn â gwerth a chymhlethdodau
- **Math 2.** Pobl y gallai fod amgyffred ganddynt o’r anawsterau strwythurol sy’n effeithio ar feithrin capasiti
- **Math 3.** Pobl y mae eu rolau yn rhoi amgyffred iddynt o ansawdd ymchwil CtP

# Cwestiynau’r Cyfweliad

Roedd y cyfweliad yn cynnwys chwe chwestiwn yn gofyn am farn a meddyliau cyfweleion ynghylch y dimensiynau canlynol mewn ymchwil CtP:

1. diffiniad o ymchwil CtP
2. nodi traddodiadau ymchwil CtP
3. ffactorau a allai bennu a gwella meini prawf ansawdd ar gyfer ymchwil CtP
4. cymhariaeth rhwng profiadau yng ngwledydd gwahanol y DU
5. rôl ymchwil CtP mewn cyfnodau addysg gwahanol a lleoliadau addysgol gwahanol
6. ffyrdd y gallai BERA gynorthwyo â datblygu ymchwil CtP.

# Canfyddiadau (prif draddodiadau)

- ymchwil weithredu
- ymchwil yn seiliedig ar ddyluniad,
- ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth,
- G* (Symud; trosglwyddo; cyfnewid Gwybodaeth)
- astudiaeth o wersi,
- ymchwil ymarferwyr,
- cymunedau dysgu ymchwil

Sut gellid nodweddu a gwella ymchwil agos at ymarfer o ansawdd uchel ar gyfer addysg yn y DU?

Mae gan rai meini prawf ansawdd mwy sefydledig a phenodol nag eraill

# Asesu Ansawdd Astudiaethau CtP

| Ansawdd agos at ymarfer | Nifer yr erthyglau |
|---|---|
| Isel | 11 |
| Canolig | 11 |
| Uchel | 6 |
| Cyfanswm | 28 |

# Canfyddiadau (ansawdd astudiaethau dewisedig)

Astudiaethau cryfach:

- cyfraniad gwreiddiol, e.e. at agwedd ar addysgu;
- gwnaed cyfraniad gwreiddiol yr astudiaeth yn eglur;
- defnydd cadarn o'r fethodoleg;
- roedd damcaniaethu digonol yn amlwg drwyddi draw;

Astudiaethau gwannach:

- canfyddiadau a oedd yn rhy ddisgrifiadol
- ymchwil heb ddigon o ddamcaniaethu
- diffyg manylder yn y disgrifiad o'r fethodoleg a dulliau'r astudiaeth.
- graddfa fach yr astudiaeth heb ei gwrthbwyso gan ddyfnder dadansoddi a/neu ddamcaniaethu

# Argymhellion dewisedig

- Ymchwilio i strwythurau y gallai BERA eu defnyddio i gynorthwyo â datblygu ymchwil CtP o ansawdd uchel mewn addysg
- Ymgysylltu â rhwydweithiau ymchwilwyr ac ymarferwyr fel partneriaid wrth ysgogi, cynnal, defnyddio ac adrodd am ymchwil.
- Darparu arweiniad ar ansawdd ymchwil CtP mewn perthynas â gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrdeb.
- Cyfleu strategaethau a chyfleoedd datblygu gyrfa ar gyfer ymchwilwyr agos at ymarfer mewn prifysgolion sy’n debygol o gefnogi datblygu eu gwybodaeth fethodolegol.
- Cynorthwyo prifysgolion i gynnal a chryfhau’r llwybr PhD-drwy-gyhoeddi at ddoethuriaeth fel un a all arwain at ddefnydd mwy effeithlon o amser academaidd.
- Ymgysylltu ag ymarferwyr o ysgolion, ac ymchwilwyr, i archwilio’r agweddau methodolegol ar ymchwil CtP.
- Ymgysylltu â rhai o’r safleoedd newydd ar gyfer ymchwil, fel rhwydweithiau ysgolion ymchwil a datblygiadau cymdeithasol eraill, i hyrwyddo ymchwil CtP o ansawdd uchel.
- Ymgysylltu â phobl lefel uwch mewn prifysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth o ymchwil CtP o ansawdd uchel a’i photensial mewn prosesau prifysgol yn ymwneud â REF, ac wrth ddatblygu addysg fel disgyblaeth.